YSGOL
Penrhyn-coch

Nerys Ann Jones yn synnu at yr ymateb a gafodd pan ofynnodd a allai rywun gyrchu ei obo o Lundain. Ydi, mae'n talu i hysbysebu yn y *Tincer* - ac mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim!!

Dechrau Mehefin bu Ffair Haf yr Ysgol. Trefnwyd hon gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a bu'n llwyddiant eithriadol. Agorwyd y Ffair gan Mrs Dr E.L.James y Garregwen a buan iawn y cliriwyd yr holl stondinau. Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs James, a gofiodd yn hael am y drysorfa, gan Rachel Bennington. Yr oedd elw'r noson dros ddau cant o bunnau.

Bu'r plant yn cystadlu yn Eisteddfod Pantyfedwen a chawsant hwyl arbennig. Yn y gystadleuaeth i bartion o chwech i ddeuddeg mewn rhif cystadleuodd deunaw parti a gosodwyd parti'r ysgol gyda saith o bartion eraill yn y safon flaenaf gyda chlod uchel iawn.

Yn y Gala nofio ym Mhwll Nofio Plas-crug daeth wyth o wobrau cyntaf i'r ysgol a gwnaeth Lynwen Jenkins a Michael Hutchinson ennill gwobrau arbennig. Torrodd Michael y record yn ei ras ef.

Yn ddiweddar bu'r plant yn gwneud ymdrech er budd Cartrefi Dr Barnardo. Casglwyd y swm o £55.85.

PARHAD →

Yn ystod yr wythnosau diwethaf aeth plant y ddau ddosbarth uchaf ar ymweliad â Gorsaf yr Heddlu yn Aberystwyth lle treuliwyd prynhawn diddorol iawn. Buwyd o amgylch y Blanhigfa yng Ngogerddan hefyd a chael amser braf yno a dysgu llawer ar yr un pryd.

Edrychwn ymlaen yn awr i'r wibdaith i Landrindod a Chwm Elan a drefnir gan yr Urdd ac yna i'r daith i Fae Colwyn ddechrau Gorffennaf.

Bydd Mabolgampau'r plant a'r rhieni y Nos Wener gyntaf yng Ngorffennaf.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Mrs Felicity Roberts, Bryncastell ar ennill gradd gydag Anrhydedd (2A) yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth. Gwraig ty yw Mrs Roberts, ac y mae'n fam i chwech o blant.